

Cwrs Plant yn Y Bala

Mai 13–15, 2016

Bydd cyfle i blant yr Ofalaeth fynd i aros yng Ngholeg y Bala ym mis Mai, o nos Wener, Mai 13 hyd amser cinio dydd Sul, Mai 15.

Mae'r cwrs hwn wedi ei drefnu ar y cyd â Gofalaeth Llanrug a Bethel ers sawl blwyddyn erbyn hyn, a dyna'r trefniant ar gyfer eleni eto.

Mae croeso i blant Carmel a Bethlehem ymuno â ni os ydynt yn dymuno hynny.

Mae'r cwrs ar gyfer plant 8 i 12 oed, sef plant Blwyddyn 3 i 6 (ond mae'n rhaid eu bod wedi cael eu pen blwydd yn 8 oed erbyn dyddiad y cwrs, yn ôl rheolau'r Coleg).

Bwriedir trefnu bws eleni eto i fynd â'r plant i'r Bala ac yn ôl.

Mae hwn wedi bod yn gwrs poblogaidd dros y blynyddoedd, ac mae'r plant wedi mwynhau eu hunain arno. Mae'n gyfle iddynt ddysgu am Iesu Grist trwy bob math o wahanol weithgareddau. Bydd cyfle hefyd i fynd i nofio yn y pwll nofio yng Nghanolfan Hamdden y dref ac i wylïo ffilm yn y Coleg ar y nos Sadwrn.

Y mis nesaf - Deiniolen

Ebrill 3

3.30 p.m. - Y Gweinidog

Ebrill 10

5.00 p.m. - Y Parchg Gwyndaf Jones

Ebrill 17

5.00 p.m. - Y Gweinidog
(Oedfa Gymun)

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Ebrill 10: Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Gwyndaf Jones, Bangor.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Sul, Ebrill 10: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog, a bydd oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch. Ni fydd Ysgol Sul.

REHOBOTH

Dydd Sul, Ebrill 10: Ni fydd oedfa.

BETHLEHEM

Dydd Iau, Ebrill 7: Cynhelir Bwrlwm am 2.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Ebrill 10: Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CARMEL

Dydd Llun, Ebrill 4: Y Dosbarth Gwau am 2.00 o'r gloch.

Dydd Iau, Ebrill 7: Bydd criw 'Dwylo Pysur' yn mynd ar daith i Lanelwy.

Dydd Sul, Ebrill 10: Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Tecwyn Roberts.

Y mis nesaf - Llanberis

Ebrill 3

10.00 a.m. - Mr John H Hughes
5.00 p.m. - Cyfarfod Gweddi

Ebrill 10

10.00 a.m. - Y Gweinidog
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

Ebrill 17

10.00 p.m. - Mr Huw Tegid Roberts
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Parti Bytholwyrdd



Mae'r haf yn dod. Mi ges i gadarnhad o'r peth yng Nghricieth y dydd o'r blaen, a chael f'atgoffa yr un pryd o'r blynyddoedd y buom ni'n byw yn Abersoch. Mae cyfyngiadau parcio tymor yr haf wedi cychwyn yng Nghricieth. Tipyn o boendod i ni oedd y rheolau a oedd yn gwahardd parcio ar y lôn o flaen ein tŷ ni yn Abersoch dros fisoedd yr haf. Heb os, dyna un o'r rhesymau pam yr oedd yn llawer gwell gen i'r gaeaf na'r haf yn y pentref glan môr prydferth hwnnw.

Ond cawsom arwydd arall o ddyfodiad yr haf yng Nghricieth nos Iau wrth i wraig leol ein cyfarch ger y traeth gan ddweud mai dyna'r noson olaf am rai misoedd y cai hi fynd â'i chi am dro i'r traeth. Ac wir i chi, roedd arwyddion ar y prom yn cadarnhau'r peth. O ddydd cyntaf Ebrill hyd ddiwedd Medi, chaiff neb fynd â chŵn i'r traeth. Wyddwn i ddim fod y fath reol yn bod. Wnes i erioed sylwi ar y ddeddf hon. Ond pe byddai gen i gi, mae'n siŵr y byddwn yn ymwybodol iawn ohoni. Wn i ddim chwaith a oedd y fath ddeddf mewn grym yn Abersoch flynyddoedd yn ôl. Pawb â'i fys lle bo'i ddolur yw hi, mae'n debyg.

Does gen i ddim ci. Fu gen i erioed gi chwaith. Ac felly mae'r gorchmynion a gyflwynwyd gan Gyngor Gwynedd (dair blynedd yn ôl, o'r hyn a welaf rwan ar wefan y Cyngor) ynghylch gwahardd cŵn o rai traethau yn gwbl amherthnasol i mi. Gallaf ddychmygu

Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 677: Dydd Sul, 03 Ebrill, 2016

Pawb â'i fys

fod perchnogion cŵn yn ymwybodol o'r gorchmynion hyn, a bod mwy nag un ohonynt wedi bod yn anfodlon iawn â hwy. Fel y dywedais, 'pawb â'i fys'.

Gŵyl Gristnogol LLANW aeth â ni a channoedd o bobl eraill i Gricieth. Mor braf oedd cael addoli Duw a chlywed pob math o dystiolaeth i ras a daioni'r Duw Byw yn yr Efengyl ac ym mywydau pobl. Calon y cyfan a ddywedwyd ac a wnaed yn LLANW oedd croes a bedd gwag yr Arglwydd Iesu Grist. Nid bod hynny'n syndod wrth reswm. Wedi'r cyfan, beth arall allai fod yn ganolbwynt i addoliad Cristnogol heblaw'r newydd da am aberth a buddugoliaeth Crist?

Ac eto, gwn mai cam bychan iawn oedd hwnnw o gynhesrwydd mawl yr ŵyl i oerni anghrediniaeth y byd. Mae'r Efengyl, sydd i rai yn tanio dychymyg ac yn cynhesu calonnau ac yn ennyn ffydd, i eraill yn ddiystyr a gwag ac amherthnasol. Nid yw Crist y groes a'r bedd gwag yn golygu dim i filoedd ar filoedd o bobl ein gwlad. Ie, pawb â'i fys lle bo'i ddolur yw hi. Oherwydd, heb deimlo clwyf a dolur y bywyd o gefnu ar Dduw ac o fethu â chyflawni ei ewyllys, wèl neb fyth werth yr Un sy'n Feddyg enaid ac yn Waredwr pechaduriaid.

Neges fawr y Beibl yw ein bod i gyd yn dioddef o'r un dolur a bod arnom oll angen yr un Gwaredwr. Gweddiwn y daw pobl i weld y dolur ac i ganfod y Meddyg.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm



'Yn yr ARGLWYDD y cefais loches; sut y gallwch ddweud wrthyf, "Ffo fel aderyn i'r mynydd, oherwydd y mae'r drygionus yn plygu'r bwa ac yn gosod eu saethau yn y llinyn i saethu yn y tywyllwch at yr uniawn?" (Salm 11:1-2).

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon Sul arall. Boed bendith Duw ar ein haddoliad.

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan Mr John H Hughes a bydd Cyfarfod Gweddi am 5.00 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 3.30 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Gwasanaethir yn Nhalybont am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Cledwyn Williams, Bangor.

Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch yn Nant Peris gan y Gweinidog.

Cofion

Dymunwn yn dda i bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn yn ddwys â Mr Eifion Roberts, Swm y Gwynt, Ffordd Padarn, Llanberis yn y brofedigaeth fawr a ddaeth iddo ef a'r teulu trwy farwolaeth ei briod Gwyneth fore Sadwrn, Mawrth 26. Roedd clywed am ei marwolaeth annisgwyl yn sioc fawr i bawb a oedd yn ei hadnabod. Roedd wedi bod allan fel arfer ddydd Gwener, ac wedi ei tharo'n wael fore Sadwrn. Cydymdeimlwn hefyd â Sioned a Nia a'u teuluoedd, ac â Glenys ac Eilwen a'u teuluoedd hwythau. Fe welir colli Gwyneth (Becws Eryri gynt) mewn sawl cylch, yn cynnwys wrth gwrs gymdeithas ein hoedfaon yn Capel Coch.

Cynhelir ei hangladd ddydd Mercher, Ebrill 6, yn Capel Coch am 12.00 o'r gloch ac yn yr Amlosgfa ym Mangor am 1.30 o'r gloch.

Sasiwn yn Llanrug

Cynhelir cyfarfodydd Sasiwn y Gogledd (neu Gymdeithasfa'r Gogledd Eglwys Bresbyteriaidd Cymru) yng Nghapel y Rhos, Llanrug ddydd Mawrth a dydd Mercher, Ebrill 12 ac 13.

Cyfarfod Chwarter

Cynhelir y Cyfarfod Chwarter nesaf yng nghapel Bethlehem, Talybont am 7.00 o'r gloch, nos Fercher, Ebrill 27. Bydd y Pwyllgor Gwaith yno fore Llun, Ebrill 11.

Casgliad y Genhadaeth

Tua'r adeg yma o'r flwyddyn y gwneir y casgliad blynyddol yn Capel Coch at Gronfa Genhadol Chwiorydd Eglwys Bresbyteriaidd Cymru. Gwneir y casgliad eleni eto, a gobeithiwn gael y cyfan i law o fewn y pythefnos nesaf, erbyn dydd Sul, Ebrill 18. Gellir rhoi eich cyfraniad i Miss Dilys Mai Roberts neu i'r casglyddion a fydd yn dod o amgylch fel arfer. Diolch ymlaen llaw am eich cefnogaeth.

Defnyddir yr arian hwn gan Adran y Chwiorydd y Presbyteriaid i gefnogi gwaith cenhadol a wneir gan weithwyr amrywiol o fewn yr enwad a gwahanol brosiectau cenhadol a dyngarol yma yng Nghymru a thramor.

Mae gan Adran y Chwiorydd Gronfa Argyfwng, a dyma ddwy enghraifft o'r defnydd a wnaed o honno y llynedd a gofnodwyd ym Mwletin y Chwiorydd yn ddiweddar.

'Ar Ebrill 25, 2015 wynebodd trigolion Nepal amser anodd iawn o ganlyniad i ddaeargryn erchyll. Collwyd miloedd o fywydau, dinistriwyd llawer o adeiladau ac roedd 6.6 miliwn o bobl wedi eu heffeithio. Yn ystod Encil flynyddol yr Adran penderfynwyd anfon £4,000 at yr Apêl o'r Gronfa Argyfwng. Bu i'r arian fod o gymorth i anfon bwyd, dwr, blancedi, pebyll, cymorth meddygol a nwyddau ty. Parhawn i gofio amdanynt yn ein gweddïau.

Yn ystod y misoedd diwethaf rydym wedi dilyn y newyddion a darllen yn ein papurau dyddiol am y miloedd o ffoaduriaid yn mudo i ddiogelwch. Mor drist ydi gweld dynion ifanc, merched a phlant yn rhedeg i dderbyn lloches mewn gwlad saff. Cymaint sydd wedi colli eu bywydau; teuluoedd wedi eu gwahanu; a phob un yn gadael cymaint ar ôl. Penderfynwyd yn ystod Pwyllgor

Blynyddol Adran y Chwiorydd ar Fedi'r 9 i anfon £3,000 o'r Gronfa Argyfwng i helpu'r sefyllfa ddyryst yma.

LLANW 16

Cynhaliwyd cynhadledd LLANW yng Nghricieth yr wythnos ddiwethaf, ac eleni eto roedd Neuadd Goffa'r dref yn llawn o bobl o bob oed yn addoli Duw a'r Arglwydd Iesu Grist.

'Pobl o bob oed' meddwn, ac roedd hynny'n gwbl wir ac yn amlwg i bawb a oedd yno ac i bwy bynnag a ddiwyddai fynd heibio i'r lle. Roedd yno bobl yn eu hwythdegau (os nad nawdegau) a babis bach wythnosau a misoedd oed. Ond rhwng y ddau begwn yna, roedd yna fwy os rhywbeth dan 40 mlwydd oed na thros 40. O bosib fod yno hyd yn oed fwy dan 30 oed na thros 30.

Wn i ddim faint yn union oedd yno, ond mae'n saff dweud fod rhai cannoedd o bobl wedi ymweld â'r wyl yn ystod yr wythnos. Am dri bore bu'r Parchg Marc Thomas, Wrecsam, yn pregethu am ras rhyfeddol Duw. Gyda'r nos, cafwyd oedfaon gwahanol oedd yn cyhoeddi mawredd Iesu Grist a rhyfeddod ei groes a'i atgyfodiad.

Cynhelir LLANW yr un pryd y flwyddyn nesaf, ac er bod awgrym wedi ei wneud mai yn y De y byddai hynny, mae'n dda dweud mai rywle yn Llŷn neu Eifionydd y bydd wedi'r cyfan.

Oedfaon Deiniolen

Mae'r trefniadau newydd ar gyfer yr oedfaon yn Neiniolen wedi cychwyn yn dda, ac mae'n braf gweld cynulleidfau gref yn yr oedfa.

Cofiwch y cynhelir oedfa bob Sul, un ai am 5.00 o'r gloch neu yn y pwnn. Bydd y Gweinidog fel arfer yn pregethu am 3.30 o'r gloch ar Sul cyntaf y mis ac am 5.00 o'r gloch ar drydydd Sul y mis.